

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Morfa, Ysbyty Llandudno,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 25 a 26 Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: 6 Tachwedd 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-069-6

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	22
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	24
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ward Morfa, Ysbyty Llandudno, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 25 a 26 Gorffennaf 2023.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 17 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda. Mynegodd y cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth a gafwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus. Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion a'u perthnasau wrthym nad oeddent bob amser yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ar gynllunio gofal a threfniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnwys cleifion a pherthnasau mewn trafodaethau ar gynllunio gofal
- Rhai agweddau ar y dogfennau gofal.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Enghreifftiau da o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion
- Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi
- Roedd y cleifion yn cael sylw prydlon pan oedd angen cymorth arnynt
- Darparu bwyd
- Yr amgylchedd a'r glendid yn gyffredinol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal ar ward Morfa yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan, ac roedd y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo. Roedd y ward yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio. Roedd prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi cael eu hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch. Fodd bynnag,

gwelsom nad oedd y ddogfennaeth bob amser yn adlewyrchu'r gofal a ddarperir.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai agweddau ar reoli risgiau
- Monitro ac adolygu'r cymysgedd o gleifion a gaiff eu lletya
- Trefniadau storio gwybodaeth gyfrinachol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Gweithiwr cymorth dementia
- Rheoli meddyginiaeth
- Atal a rheoli heintiau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ward ac roedd y staff, yn gyffredinol, yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Dywedodd y rhan fwyaf o aelodau'r staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith ar y cyfan, a bod diwylliant agored a chefnogol yno. Fodd bynnag, roedd rhai ohonynt yn feirniadol o aelodau o'r tîm rheoli.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai agweddau ar hyfforddi staff
- Cydberthnasau rhwng rhai o'r rheolwyr a'r staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cefnogaeth a goruchwyliaeth dda gan reolwr y ward
- Prosesau archwilio ac adrodd da.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalu. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae popeth yn dda, dim problemau.”

“Mae'r bobl yn mynd yr ail filltir i ddarparu gwasanaeth da.”

“Mae'r bwyd yn wych.”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae angen i'r meddygon rannu gwybodaeth a'u penderfyniadau. Nid ydym ni fel teulu yn cael ein cynnwys yn y broses gynllunio.”

“Mae'r staff yn rhy brysur i roi sylw i gleifion bob amser.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r ward, ac roedd llawer ohonynt yn ddwyieithog.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol.

Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm o staff ac roedd y cleifion a'u perthnasau yn llawn canmoliaeth tuag at y staff.

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Gwelsom fod y staff yn gwneud ymdrech i sicrhau bod y cleifion yn lân a bod eu dillad yn cael eu newid yn rheolaidd hefyd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cleifion nad oeddent yn cael cymorth gan berthnasau neu ffrindiau a oedd yn ymweld â nhw yn rheolaidd yn gallu golchi eu dillad presennol ac felly roeddent yn gwisgo'r un dillad am gyfnodau hir o amser.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion nad ydynt yn gweld ymwelwyr yn rheolaidd yn gallu cael gafael ar ddillad glan.

Dyweddodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y ffordd roedd y staff yn cynnal eu preifatrwydd a gwelsom lenni yn cael eu cau o amgylch y cleifion wrth i ofal personol gael ei ddarparu. Fodd bynnag, gwelsom un claf yn cael ei drosglwyddo i gadair olwyn ym mhrif goridor y ward mewn ffordd nad oedd yn sicrhau urddas y claf yn llawn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff preifatrwydd y cleifion ei gynnal bob amser.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwelsom fod y gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn trafodaeth â'r cleifion ar y cyfan ac mewn ffordd a oedd yn nodi ac yn diwallu eu hanghenion a'u dymuniadau unigol. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion a'r perthnasau wrthym nad oedd hyn yn digwydd bob amser ac nad oeddent yn cael eu hysbysu am yr hyn a oedd yn digwydd iddynt. Roedd hyn yn broblem benodol mewn perthynas â'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cynrychiolwyr dynodedig y cleifion eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal yn unol â dymuniadau'r cleifion.

Roedd ansawdd yr asesiadau a'r broses o gynllunio gofal yn amrywio. Nid oedd rhai o'r cynlluniau gofal a welsom bob amser yn adlewyrchu anghenion y bobl yn gywir ac nid oeddent bob amser yn adlewyrchiad o'r gofal a ddarperir. Er enghraifft, nid oedd asesiad risg maeth un o'r cleifion yn adlewyrchu'r ffaith ei fod yn cymryd atchwanegion, ac roedd asesiad risg un o'r cleifion eraill yn nodi nad oedd yn ei chael hi'n anodd yfed er bod ei nodiadau gofal yn awgrymu y dylid ei annog i yfed. Mewn enghraifft arall, roedd cofnodion gofal y claf yn nodi nad oedd ganddo unrhyw anghenion maethol penodol. Fodd bynnag, roedd y claf yn ddiabetig ac roedd ei lefelau siwgr yn y gwaed yn cael eu monitro ddwywaith y dydd. Roedd archwiliadau siartiau bwyd y ward yn awgrymu bod y staff angen arweiniad pellach

ar sut i fonitro cymeriant deietegol a hylif. Dengys yr archwiliadau ar gyfer mis Mai a mis Mehefin 2023 mai dim ond 33% o'r siartiau a gafodd eu cwblhau'n gywir a'u llofnodi gan nyrs gofrestrdig a dim ond 50% o'r siartiau cymeriant ac allbwn hylifau oedd wedi'u cwblhau'n gywir ar gyfer yr un cyfnod.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiadau a'r cynlluniau gofal yn gyson ac yn adlewyrchu anghenion y cleifion a bod dogfennaeth ategol, megis siartiau cymeriant dietegol a hylif, yn cael eu cynnal yn gywir.

Gwelsom nad oedd yr asesiadau risg ar gyfer briwiau pwysu ac iechyd y croen wedi'u diweddarau'n rheolaidd ym mhob achos ac nad oedd atgyfeiriadau at y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe yn cael eu cofnodi bob amser. Dengys archwiliad y ward fod y gyfradd gwblhau ar gyfer asesiadau briw pwysu yn 100% ym mis Mai a'i bod wedi gostwng i 67% ym mis Mehefin.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau risg ar gyfer briwiau pwysu ac iechyd y croen eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd ac y caiff atgyfeiriadau ar y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd trafodaethau amlddisgyblaethol da yn cael eu cynnal yn ystod rownd bwrdd ynghylch anghenion y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd y taflenni trosglwyddo wedi'u hargraffu a oedd yn cael eu defnyddio gan y staff yn cael eu diweddarau'n ddyddiol ac felly nid oeddent yn adlewyrchu newidiadau yng nghyflwr y cleifion na'r newidiadau i'w anghenion gofal.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y taflenni trosglwyddo wedi'u hargraffu a ddefnyddir gan y staff yn cael eu diweddarau'n ddyddiol a bod y wybodaeth yn adlewyrchu anghenion gofal y cleifion yn gywir.

Gwelsom fod dymuniadau'r cleifion mewn perthynas â dadebru pe byddent yn llewygu yn cael eu trafod â nhw a chynrychiolwyr penodol o'r teulu a bod dogfennaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR) yn cael ei chwblhau yn ôl yr angen. Fodd bynnag, roedd un o'r dogfennau DNACPR a welsom yn cynnwys dyddiad geni anghywir y claf ac nid oedd wedi cael ei hadolygu i adlewyrchu newidiadau sylweddol yng nghyflwr y claf a'i anghenion gofal. At hynny, nid oedd y taflenni trosglwyddo a ddefnyddir gan y staff yn cynnwys gwybodaeth gyfredol mewn perthynas â statws DNACPR y cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff dogfennaeth DNACPR ei chwblhau'n gywir a bod statws DNACPR y cleifion yn cael ei adolygu pan fo newidiadau sylweddol yng nghyflwr y cleifion a'u hanghenion gofal. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod taflenni trosglwyddo'r staff yn adlewyrchu statws DNACPR y cleifion yn gywir hefyd.

Gwelsom nad oedd yr asesiadau ymataliaeth wedi'u cwblhau ar gyfer pob un o'r cleifion ac nad oedd cymorthyddion ymataliaeth, megis padiau, yn cael eu rhoi ar bresgripsiwn unigol er mwyn diwallu anghenion penodol y cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau ymataliaeth eu cynnal ar bob claf a bod cymorthyddion ymataliaeth, megis padiau, yn cael eu rhoi ar bresgripsiwn unigol er mwyn diwallu anghenion penodol y cleifion.

Amserol

Gofal amserol

Roedd y cleifion yn cael sylw prydlon pan oedd angen cymorth arnynt. Gwelwyd bod y staff yn rhagweld anghenion y cleifion drwy ddulliau arsylwi cyffredinol. Roedd hyn yn eu galluogi i roi sylw i'r cleifion mewn ffordd amserol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd dawel ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau yr oedd yn well ganddynt eu defnyddio. Gwelwyd aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd a oedd yn eu hannog ac yn eu cynnwys.

Roedd diwylliant y ward yn gwbl ddwyieithog. Roedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Roedd rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg, a oedd yn golygu y gallai'r cleifion a'r perthnasau Cymraeg eu hiaith sgwrsio â nhw yn eu mamiaith.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom y staff yn rhyngweithio'n garedig a pharchus â'r cleifion a chadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwranddo, arnyn nhw ac ar eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu.

Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i'r cleifion a'u teuluoedd allu cwrdd yn breifat ac roeddent yn barod i hwyluso hyn drwy ddefnyddio ystafelloedd nad oeddent yn cael eu defnyddio ar y pryd.

Gwelsom fod gwybodaeth y staff am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'u prosesau ar gyfer eu rhoi ar waith yn amrywiol, a dywedodd y staff wrthym mai ychydig iawn o hyfforddiant roeddent wedi'i gael ar y maes hwn. Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r cleifion a oedd yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ac roedd hyn i'w weld yn ansawdd y ddogfennaeth a welsom.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff hyfforddiant a chanllawiau mewn perthynas â Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a bod statws y trefniadau hynny yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn nhaflenni trosglwyddo'r staff.

Prin iawn oedd dealltwriaeth y staff y gwnaethom siarad â nhw o'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol a dywedwyd wrthym nad oedd asesiadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff hyfforddiant a chanllawiau mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a bod asesiadau yn cael eu cynnal ar gleifion lle y bo'n briodol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan, ac mai gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, oedd prif flaenoriaethau'r staff.

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roeddent yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd archwiliadau clinigol ac asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r materion canlynol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw:

- Nid oedd y broses o brofi dŵr am glefyd y llengfilwyr yn gadarn a gwelwyd tystiolaeth i ddangos nad oedd y dŵr mewn un ystafell ymolchi wedi'i brofi er bod cofnod ohono ar y rhestr wirio.
- Nid oedd y drws a oedd yn arwain at ystafell storio'r glanhawr yn cael ei gloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Gwelwyd bod hylifau glanhau yn cael eu storio ar silffoedd yn yr ystafelloedd hyn a oedd yn peri risg o niwed i gleifion os byddant yn eu llyncu. Gwelsom hefyd botiau o hylifau a siampw a oedd wedi'u gadael yn un o'r ystafelloedd ymolchi a llafnau rasel ar silff agored mewn ystafell storio nad oedd wedi'i chloi. Roedd pob un o'r rhain yn peri risg o niwed i'r cleifion. Tynnwyd sylw dirprwy reolwr y ward at y materion hyn, a chymerodd gamau ar unwaith i ddatrys y materion.
- Roedd rhan o'r llawr ger gorsaf y nyrsys wedi'i difrodi ac roedd yn peri perygl baglu i'r cleifion, yr ymwelwyr a'r staff. Rhoddwyd gwybod i ni fod y mater wedi'i gyfeirio at yr adran cynnal a chadw ers cryn amser.
- Roedd cyfarpar ategol, megis teclynnau codi a pheiriannau monitro pwysedd gwaed, yn cael eu storio yn ystafelloedd dydd y ward. Roedd y rhain yn peri perygl baglu i'r cleifion, ymwelwyr a'r staff.
- Roedd cloriannau pwyso'r teclyn codi wedi torri ac roedd angen eu hatgyweirio.
- Roedd potiau o bowdr tewychu yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi yng nghegin y ward lle nad oedd drws yr ystafell wedi'i gloi bob amser gan nad oedd

y clo yn gweithio'n iawn. Roedd rhai o'r potiau wedi'u hagor, ond nid oedd dyddiad agor wedi'i gofnodi arnynt.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y bydd yn mynd i'r afael â'r materion rheoli risg uchod yn ddi-oed.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd trefniadau cadw tŷ da iawn ar waith. Roedd yr ardaloedd a'r ystafelloedd cymunedol a welsom yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u gosod mewn mannau strategol o amgylch y ward.

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith, wedi'i ategu gan amserlenni glanhau cynhwysfawr.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi ac egwyddorion arfer da. Rydym yn awgrymu y dylid arddangos canlyniadau archwiliadau o'r fath i'r cleifion, ymwelwyr a staff eu gweld.

Diogelu plant ac oedolion

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y ward. Roedd polisiau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu gweithredol ar y ward ar adeg yr arolygiad.

Rheoli gwaed

Roedd polisi trallwysiad gwaed ar waith, a dywedwyd wrthym fod y staff sy'n ymwneud â thrallwysio gwaed a rheoli cynhyrchion gwaed yn cael hyfforddiant ac yn ymgymryd ag asesiadau cymhwysedd rheolaidd.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol ar gael ar y ward, a dengys y cofnodion bod y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn drefnus ar y cyfan.

Roedd polisi rheoli meddyginiaeth cynhwysfawr ar waith. Roedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Gwelsom aelodau o'r staff yn rhoi meddyginiaeth ac edrychwyd ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Nodwyd fod y broses yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod asesiadau poen yn cael eu cynnal ac roedd y nyrsys yn gofyn i'r cleifion os oeddent angen unrhyw feddyginiaethau lleddfu poen wrth roi meddyginiaeth.

Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen rhoi sylw i rai agweddau mewn perthynas â rheoli meddyginiaethau:

- Gwelwyd fod y cwpwrdd meddyginiaeth gofal lliniarol yn cynnwys meddyginiaeth a oedd wedi'i rhagnodi i gleifion nad oeddent yn lletya ar y ward mwyach
- Nid oedd y mecanwaith cau awtomatig a osodwyd ar y drws a oedd yn arwain at yr ystafell storio meddyginiaeth yn gweithio'n iawn
- Dylid gosod hysbysiad ar ochr allan y cwpwrdd a oedd yn cynnwys y ddyfais chwistrellu yn nodi ei dyddiad dod i ben er mwyn sicrhau y gall y staff ei monitro'n rhwydd.

At hynny, gwelsom fod y blwch gwaredu meddyginiaeth yn llawn. Tynnwyd sylw'r fferylllydd at hyn, a symudodd y blwch a gwaredu ei gynnwys.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol.

O'n trafodaethau â'r staff ac o edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, nodwyd gennym fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd y system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) wedi'i hadlewyrchu yn y broses asesu a chynllunio gofal.

Maeth a hydradu

Roedd y bwyd a'r ddiod a oedd yn cael eu darparu yn dda iawn ac roedd anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu adeg eu derbyn.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion ac roedd jygiau dŵr wrth ymyl eu gwely.

Gwelwyd y staff yn helpu'r cleifion i fwyta ac yfed. Gwelsom brydau amser cinio yn cael eu gweini a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd dawel ac urddasol

heb rithro gan roi digon o amser i'r cleifion gnoi a llyncu eu bwyd. Gwelsom hefyd fod y staff yn annog ac yn helpu'r cleifion i fwyta'n annibynnol.

Mae'r holl brydau yn cael eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd, ac roeddent wedi'u cyflwyno'n dda ac yn edrych yn flasu. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Roedd system effeithiol ar waith er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol ac roedd y cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r staff arlwyo yn dda.

Cofnodion y cleifion

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion a welsom yn dda ar y cyfan ac yn eithaf hawdd eu defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd pob cofnod wedi'i ddyddio na'i lofnodi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn nodi dyddiad ac yn llofnodi pob cofnod yng nghofnodion y cleifion.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau ar waith ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

Roedd rhai nodiadau yn cael eu storio mewn trolïau a oedd yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio ac roedd ffeiliau eraill yn cael eu storio ar silffoedd gwaelod agored y trolïau ac yn swyddfa rheolwr y ward nad oedd bob amser yn cael ei chloi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth gyfrinachol mewn perthynas â chleifion ei storio'n ddiogel bob amser.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom aelodau o'r staff yn ceisio darparu gofal effeithlon i'r cleifion.

Roedd cymysgedd o gleifion yn cael gofal ar y ward a oedd yn cynnwys cleifion ag anghenion gofal iechyd meddwl oherwydd dementia, cleifion ag anghenion gofal corfforol uchel a chleifion yr aseswyd eu bod yn addas i gael eu rhyddhau ac a oedd yn aros am leoliad cartref gofal addas neu becyn gofal cymunedol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod, ar adegau, yn ei chael hi'n anodd bodloni'r gofynion gofal amrywiol a oedd yn deillio o'r cymysgedd o gleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro cymysgedd y cleifion ar y ward er mwyn sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu'n llawn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Cafwyd ymatebion cymysg i'r holiaduron ar bob rhan o'r gwasanaeth gan y staff, yn benodol ar y meysydd sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg a thegwch a chydaddoldeb yn y gweithle.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad ond roedd llai o'r ymatebwyr yn teimlo y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad petai angen triniaeth arnynt, neu ar ffrind neu deulu.

Roedd ychydig dros hanner y staff o'r farn eu bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu gwaith a bod yr uwch-reolwyr yn weladwy ac yn ymrwymedig i ofal cleifion.

Nid oedd pob un o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cyfleoedd yn y gweithle ar gael iddynt yn deg nac yn gyfartal ac roeddent o'r farn nad oedd y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff a'r nyrsys yn gweithio'n galed iawn, er nad oes digon o staff ar gael fel arfer, ond maent yn gweithio hyd eithaf eu gallu. Mae'n hawdd mynd at y ddwy ddirprwy brif nyrs ac maent yn gwneud eu gorau i helpu'r staff ac i wneud yn siŵr bod y cleifion yn cael y gofal gorau posibl.”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Byddai mwy o hyfforddiant ar ofal dementia yn ddefnyddiol.”

“Mae angen rhagor o staff sy'n siarad Cymraeg/Saesneg er mwyn i gleifion sydd â Dementia a phobl hŷn sy'n cael gofal eu deall.”

“Llai o staff asiantaeth a gofyn i staff Betsi gyflenwi sifftiau cyn gofyn i'r staff asiantaeth wneud hynny.”

“Mae angen uwch-staff sy'n haws mynd atynt.”

“Mwy o staff ar gyfer pob shifft er mwyn cynnal diogelwch. Yn enwedig pan fydd gennym gleifion un i un.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sylwadau'r staff a chymryd camau i ymdrin â'r materion a amlygwyd.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu a rheoli'r ward.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith i sicrhau ffocws ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwyllo a chefnogi'r staff a gwelsom fod adolygiadau perfformiad ac adolygiadau arfarnu staff ffurfiol, wedi'u dogfennu, yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a nodwyd bod y gweithdrefnau priodol wedi cael eu dilyn wrth recriwtio'r staff a bod gwiriadau recriwtio perthnasol wedi'u cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Roedd y staff ar y ward yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym, oherwydd pwysau gwaith, nad ydynt bob amser yn cael amser gwarchodedig er mwyn cwblhau'r hyfforddiant.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael amser gwarchodedig, a hynny y tu hwnt i ardal y ward glinigol, er mwyn cwblhau hyfforddiant.

Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn pynciau fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Iechyd a Diogelwch a Diogelu yn ogystal â hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth am hyfforddiant y staff a ddarparwyd yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn amrywiol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau pob agwedd ar hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n fwy penodol i'r gwasanaeth.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a oedd yn dod i law am y gwasanaeth yn isel iawn.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd rhai ohonynt yn feirniadol o aelodau o'r tîm rheoli. Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn dda iawn ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r tîm rheoli yn wael iawn. Mae'n amhroffesiynol iawn ac yn anghwrtais - nid yw'n gefnogol nac yn hawdd mynd ato.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd archwilio'r ffyrdd y gellir gwella a chynnal cydberthnasau da a phroffesiynol rhwng y rheolwyr a'r staff.

Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan reoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi ymgymryd â gweithgareddau e-ddysgu ond dywedodd eraill wrthym nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ar y mater.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u bod yn cael hyfforddiant priodol ar y mater.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, gwelsom enghreifftiau o wybodaeth gyfrinachol am gleifion a oedd wedi cael ei gadael heb oruchwyliaeth ar achlysuron yn ystod yr arolygiad.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn monitro a gwella ansawdd y gofal a ddarperir.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dywedwyd wrthym fod y ward yn cael ei chefnogi'n dda gan weithwyr proffesiynol eraill fel fferyllwyr, ffisiotherapyddion a deietegwyr.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Nid oedd y drws a oedd yn arwain at ystafell storio'r glanhawr yn cael ei gloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Gwelwyd bod hylifau glanhau yn cael eu storio ar silffoedd yn yr ystafell hon. Gwelsom hefyd botiau o hylifau a siampwê a oedd wedi'u gadael mewn ystafell ymolchi.</p>	<p>Roedd hyn yn peri risg o niwed i gleifion pe byddent yn cael eu llyncu.</p>	<p>Tynnwyd sylw dirprwy reolwr y ward at y materion hyn.</p>	<p>Cafodd y staff eu cynghori i sicrhau bod y drws i ystafell y glanhawr yn cael ei gloi.</p> <p>Cafodd yr hylifau a'r siampwê eu symud o'r ystafell ymolchi a'u storio'n ddiogel mewn man arall.</p>
<p>Roedd y blwch gwaredu meddyginiaeth yn llawn.</p>	<p>Roedd hyn yn golygu nad oedd lle i storio unrhyw eitemau ychwanegol o feddyginiaethau i'w gwaredu.</p>	<p>Tynnwyd sylw'r fferyllydd at hyn, a symudodd y blwch a gwaredu ei gynnwys.</p>	<p>Gwaredwyd y feddyginiaeth.</p>

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ward Morfa, Ysbyty Llandudno

Dyddiad yr arolygiad: 25 a 26 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward Morfa, Ysbyty Llandudno

Dyddiad yr arolygiad: 25 a 26 Gorffennaf 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd y cleifion nad oeddent yn cael cymorth gan berthnasau neu ffrindiau a oedd yn ymweld â nhw yn rheolaidd yn gallu golchi eu dillad presennol ac felly roeddent yn gwisgo'r un dillad am gyfnodau hir o amser.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion nad ydynt yn gweld ymwelwyr yn rheolaidd yn gallu cael gafael ar ddillad glan.	Ar gyfer cleifion nad oes ganddynt ffrindiau neu deulu y gallant ddod â dillad neu eiddo personol iddynt. Staff i gysylltu â gweithwyr cymdeithasol y cleifion i gefnogi'r broses o gael dillad ac eiddo perthnasol. Mae hyn wedi'i ychwanegu at ein taflen drosglwyddo newydd er mwyn i bob aelod o'r staff fod yn ymwybodol o'r weithdrefn. Caiff ffrindiau a theuluoedd eu hannog i ddod ag eiddo cleifion i'r ward, yn enwedig dillad ac esgidiau. Nodir hyn	Nyrs Gofrestredig/ Rheolwr y Ward	30/11/2023 30/11/2023

		yn glir yn Nhaflen Ysbyty Llandudno.		
Cafodd un claf ei drosglwyddo i gadair olwyn ym mhrif goridor y ward mewn ffordd nad oedd yn sicrhau ei urddas yn llawn.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff preifatrwydd y cleifion ei gynnal bob amser.	Mae pob aelod o'r staff sy'n ymwneud â'r tîm amlddisgyblaethol wedi cwblhau'r hyfforddiant preifatrwydd ac urddas ar Gofnodion Staff Electronig. Bydd pwysigrwydd cynnal urddas cleifion bob amser yn cael ei ychwanegu at y briff diogelwch am gyfnod o bythefnos o 16/10/23 ac yn cael ei godi yn y cyfarfod ward nesaf ar 20/10/2023.	Rheolwr y Ward Dirprwy Reolwr y Ward	30/11/2023 31/10/2023
Dywedodd rhai o'r cleifion a'r perthnasau wrthym nad oeddent yn cael eu hysbysu am yr hyn a oedd yn digwydd iddynt. Roedd hyn yn broblem benodol mewn perthynas â'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cynrychiolwyr dynodedig y cleifion eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal yn unol â dymuniadau'r cleifion.	Mewn achosion lle mae angen i gleifion gael cyfarfod rhyddhau o'r ysbyty â'r tîm amlddisgyblaethol, gwneir pob ymdrech i drefnu dyddiad ac amser sy'n gyfleus i'r teulu a'r gweithwyr proffesiynol gofynnol. Gellir cynnig iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod o bell er mwyn hwyluso presenoldeb.	Rheolwr y Ward Dirprwy Reolwr y Ward Meddyg Ymgynghorol Tîm amlddisgyblaethol	31/10/2023

Rhaid i bob aelod o'r staff sicrhau y caiff pob gohebiaeth ei chofnodi ar y dudalen gyfathrebu ar Gofnod Gofal Nyrsio Cymru. Caiff hyn ei archwilio ochr yn ochr ag archwiliadau safon ar ddogfennaeth.

Caiff gwaith papur Rownd Bwrdd y tîm amlddisgyblaethol ei gwblhau yn ystod rowndiau bwrdd dyddiol. Mae'r rhestr wirio rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn nodi perthynas agosaf cleifion a'r ffaith ei bod yn ymwybodol o'r cynlluniau rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r rhestr wirio hon yn cael ei harchwilio ar hyn o bryd drwy'r archwiliadau cod QR a gaiff eu cwblhau gan reolwr y ward.

Caiff y staff meddygol eu hannog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r teuluoedd am gynnydd eu perthynas. Caiff y

		broes gyfathrebu ei chofnodi yn nodiadau meddygol y cleifion.		
Roedd ansawdd yr asesiadau a'r broses o gynllunio gofal yn amrywio. Nid oedd rhai o'r cynlluniau gofal a welsom bob amser yn adlewyrchu anghenion y bobl yn gywir ac nid oeddent bob amser yn adlewyrchiad o'r gofal a ddarperir.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiadau a'r cynlluniau gofal yn gyson ac yn adlewyrchu anghenion y cleifion a bod dogfennaeth ategol, megis siartiau cymeriant dietegol a hylif, yn cael eu cynnal yn gywir.	Bydd dyddiadau hyfforddiant ar gyfer asesiadau risg a hyfforddiant "Back to Basic" ar gyfer pob aelod o staff yn cael eu darparu. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau siartiau hylif/bwyd. Bydd yr adran Dieteteg yn darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb ar y ward ar gyfer pob aelod o staff, gan gynnwys y tîm meddygol.	Rheolwr y Ward Arweinydd Dieteteg Prif Nyrs Arwain Meddyginiaethau	30/11/2023 30/11/2023
Nid oedd yr asesiadau risg ar gyfer briwiau pwyso ac iechyd y croen wedi'u diweddarau'n rheolaidd ym mhob achos ac nid oedd atgyfeiriadau at y Nyrs Arbenigol ar Hyfywedd Meinwe yn cael eu cofnodi bob amser.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau risg ar gyfer briwiau pwyso ac iechyd y croen eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd ac y caiff atgyfeiriadau at y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.	Bydd hyfforddiant ar asesiadau risg briwiau pwyso ac iechyd y croen, gan gynnwys Purpose T (fframwaith asesiadau risg briwiau pwyso) yn cael ei ddarparu. Bydd hyfforddiant wyneb yn wyneb ar Hyfywedd Meinwe yn cael ei ddarparu.	Rheolwr y Ward Metron Nyrs Hyfywedd Meinwe	30/11/2023 30/11/2023

		Caiff archwiliadau eu cynnal gan reolwr y ward yn wythnosol ac yn fisol gan y metron drwy system IRIS ac mae'r broses o gwblhau'r asesiadau risg wedi'i chynnwys yn yr archwiliadau hyn.		30/11/2023
Nid oedd y taflenni trosglwyddo wedi'u hargraffu a oedd yn cael eu defnyddio gan y staff yn cael eu diweddarau'n ddyddiol ac felly nid oeddent yn adlewyrchu newidiadau yng nghyflwr y cleifion na'r newidiadau i'w anghenion gofal.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y taflenni trosglwyddo wedi'u hargraffu a ddefnyddir gan y staff yn cael eu diweddarau'n ddyddiol a bod y wybodaeth yn adlewyrchu anghenion gofal y cleifion yn gywir.	Mae'r ddogfennaeth drosglwyddo wedi'i hadolygu drwy waith ymchwil, archwiliadau ac adborth gan gymheiriaid. Caiff y daflen drosglwyddo ei chadw ar yriant caled y cyfrifiadur yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod copïau yn cael eu storio'n ddiogel.	Nyrs Gofrestredig	30/11/2023
Roedd un o'r dogfennau Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR) a welsom yn cynnwys dyddiad geni anghywir y claf ac nid oedd wedi cael ei hadolygu i adlewyrchu newidiadau sylweddol yng nghyflwr y claf a'i anghenion gofal. At hynny, nid oedd y taflenni trosglwyddo	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff dogfennaeth DNACPR ei chwblhau'n gywir a bod statws DNACPR y cleifion yn cael ei adolygu pan fo newidiadau sylweddol yng nghyflwr y cleifion a'u hanghenion gofal. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod taflenni trosglwyddo'r staff yn adlewyrchu	Mae statws DNACPR bellach wedi'i gynnwys yn y ddogfennaeth drosglwyddo ddyddiol. Bydd y staff yn adolygu'r ddogfennaeth DNACPR wrth dderbyn cleifion i'r ward ac yn dilyn adolygiad meddygol er mwyn sicrhau y caiff manylion	Rheolwr y Ward Dirprwy Reolwr y Ward Swyddog Dadebru	30/11/2023

<p>a ddefnyddir gan y staff yn cynnwys gwybodaeth gyfredol mewn perthynas â statws DNACPR y cleifion.</p>	<p>statws DNACPR y cleifion yn gywir hefyd.</p>	<p>y cleifion eu diweddarau a'u bod yn gywir.</p>		
<p>Nid oedd yr asesiadau ymataliaeth wedi'u cwblhau ar gyfer pob un o'r cleifion ac nid oedd cymorthyddion ymataliaeth, megis padiau, yn cael eu rhoi ar bresgriptiwn unigol er mwyn diwallu anghenion penodol y cleifion.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau ymataliaeth eu cynnal ar bob claf a bod cymorthyddion ymataliaeth, megis padiau, yn cael eu rhoi ar bresgriptiwn unigol er mwyn diwallu anghenion penodol y cleifion.</p>	<p>Bydd hyfforddiant asesu ymataliaeth yn cael ei gwblhau gan bob aelod o'r staff nyrsio.</p> <p>Pan fo'n ofyniad clinigol, bydd asesiad ymataliaeth yn cael ei gynnal ar bob un o'r cleifion a gaiff gynnyrch ymataliaeth.</p> <p>Mae stoc o gynnyrch ymataliaeth angenrheidiol ar gael i'r cleifion yn ddibynnol ar gyflenwadau o gynhyrchion penodol yn dilyn asesiad.</p>	<p>Rheolwr y Ward Nyrs Arwain Ymataliaeth</p>	<p>30/11/2023</p>
<p>Roedd gwybodaeth y staff am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a'u prosesau ar gyfer eu rhoi ar waith yn amrywiol, a dywedodd y staff wrthym mai ychydig iawn o hyfforddiant roeddent wedi'i gael yn y maes hwn. Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff hyfforddiant a chanllawiau mewn perthynas â Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a bod statws y trefniadau hynny yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn nhaflenni trosglwyddo'r staff.</p>	<p>Mae hyfforddiant wyneb yn wyneb ar Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar gyfer pob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff meddygol, wrthi'n cael ei gyflwyno.</p>	<p>Nyrs Cyswllt Rhyddhau Cleifion Rheolwr y ward</p>	<p>30/11/2023</p>

<p>cleifion a oedd yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ac roedd hyn i'w weld yn ansawdd y ddogfennaeth a welsom.</p>		<p>Mae'r ddogfennaeth cyfeirio cyflym 'Prawf Asid' i'w gweld ym mhob ardal glinigol.</p> <p>Caiff y cleifion sy'n destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid eu nodi'n glir ar y daflen trosglwyddo shiftt a chaiff y ddogfennaeth Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ei chadw yn y nodiadau meddygol.</p>		
<p>Prin iawn oedd dealltwriaeth y staff o'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol a dywedwyd wrthym nad oedd asesiadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff hyfforddiant a chanllawiau mewn perthynas â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a bod asesiadau yn cael eu cynnal ar gleifion lle y bo'n briodol.</p>	<p>Caiff hyfforddiant wyneb yn wyneb ar asesu galluedd meddyliol ei ddarparu ar gyfer pob aelod o'r staff, gan gynnwys y staff meddygol</p> <p>Mae'r hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol wedi'i gwblhau yn ôl gofyniad clinigol.</p>	<p>Nyrs Cyswllt Rhyddhau Cleifion</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>30/11/2023</p>
<p>Nid oedd y broses o brofi dŵr am glefyd y llengfilwyr yn gadarn a gwelwyd tystiolaeth i ddangos nad oedd y dŵr mewn un ystafell ymolchi wedi'i brofi er bod cofnod ohono ar y rhestr wirio.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y bydd yn mynd i'r afael â'r materion rheoli risg hyn yn ddi-oed.</p>	<p>Mae rhestr wirio'r ward ar gyfer profi'r dŵr am glefyd y llengfilwyr wedi'i diwygio a chaiff ei chwblhau ddwywaith yr wythnos bellach gan y swyddog cadw tŷ. Caiff y broses o gwblhau gwiriadau ei</p>	<p>Swyddog cadw tŷ</p>	<p>31/10/2023</p>

<p>Nid oedd y drws a oedd yn arwain at ystafell storio'r glanhawr yn cael ei gloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Gwelwyd bod hylifau glanhau yn cael eu storio ar silffoedd yn yr ystafelloedd hyn a oedd yn peri risg o niwed i gleifion os byddant yn eu llyncu. Gwelsom hefyd botiau o hylifau a siampw a oedd wedi'u gadael yn un o'r ystafelloedd ymolchi a llafnau rasel ar silff agored mewn ystafell storio nad oedd wedi'i chloi. Roedd pob un o'r rhain yn peri risg o niwed i'r cleifion. Tynnwyd sylw dirprwy reolwr y ward at y materion hyn, a chymerodd gamau ar unwaith i ddatrys y materion.</p> <p>Roedd rhan o'r llawr ger gorsaf y nyrsys wedi'i difrodi ac roedd yn peri perygl baglu i'r cleifion, yr ymwelwyr a'r staff. Rhoddwyd gwybod i ni fod y mater wedi'i gyfeirio at yr adran cynnal a chadw ers cryn amser.</p>		<p>monitro gan reolwr y ward a chaiff y dystiolaeth ei storio'n ddiogel ar y ward.</p> <p>Mae'r adran Ystadau wedi bod ar y ward i drwsio'r drws. Er mwyn sicrhau y caiff y drws ei adael ar gau, mae archwiliad cod QR wedi'i ddatblygu a chaiff ei gwblhau'n ddyddiol.</p> <p>Cafodd y raseli eu symud ar unwaith a'u gosod mewn cwpwrdd dan glo yn dilyn ymweliad AGIC â'r ward. Atgoffwyd y staff am hyn drwy'r sesiwn friffio ar ddiogelwch ar 16/10/2023.</p> <p>Uwchgyfeiriwyd y mater o ran y lloriau sydd wedi'u difrodi at dîm rheoli'r ysbyty ac anfonwyd neges e-bost ato yn gofyn am ddiweddariad ar 16/10/2023. Caiff y mater hwn ei nodi ar yr archwiliad '<i>Cleaning for Credits</i>' (C4C)</p>	<p>Clerc y Ward</p> <p>Swyddog cadw tŷ</p> <p>Ystadau</p>	<p>27/07/2023</p> <p>27/7/2023</p> <p>30/11/2023</p>
---	--	--	---	--

<p>Roedd cyfarpar ategol, megis teclynnau codi a pheiriannau monitro pwysedd gwaed, yn cael eu storio yn ystafelloedd dydd y ward. Roedd y rhain yn peri perygl baglu i'r cleifion, ymwelwyr a'r staff.</p> <p>Roedd cloriannau pwyso'r teclyn codi wedi torri ac roedd angen eu hatgyweirio.</p> <p>Roedd potiau o bowdr tewychu yn cael eu storio mewn cwpwrdd heb ei gloi yng nghegin y ward lle nad oedd drws yr ystafell wedi'i gloi bob amser gan nad oedd y clo yn gweithio'n iawn. Roedd rhai o'r potiau wedi'u hagog, ond nid oedd dyddiad agor wedi'i gofnodi arnynt.</p>		<p>misol a'i ychwanegu at Gofrestr Risgiau Ward Morfa.</p> <p>Caiff pob cyfarpar ei storio bellach yn y cwpwrdd storio. Cafodd y staff wybod am y broses hon drwy'r sesiwn friffio ar ddiogelwch ar 16/10/2023.</p> <p>Rhodddwyd gwybod am y teclyn codi sydd wedi torri ac mae bellach wedi'i gondemnio. Mae teclyn codi newydd wrthi'n cael ei archebu - holwyd am y gost ar 11/09/2023. Mae'r ward yn rhannu teclyn codi â'r ward gyfagos ar hyn o bryd.</p> <p>Mae system sticeri newydd wedi'i chyflwyno a gaiff eu gosod ar bob eitem ddarfodus ar ôl ei hagog. Rhodddwyd gwybod i'r staff am hyn drwy'r sesiwn friffio ar ddiogelwch ar 16/10/2023.</p>	<p>Swyddog cadw tŷ</p> <p>Swyddog cadw tŷ</p> <p>Swyddog cadw tŷ</p>	<p>30/11/2023</p> <p>30/11/2023</p> <p>30/11/2023</p>
---	--	--	--	---

<p>Nid oedd pob cofnod yng nghofnodion y cleifion wedi'i ddyddio na'i lofnodi.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn nodi dyddiad ac yn llofnodi pob cofnod yng nghofnodion y cleifion.</p>	<p>Atgoffwyd y staff o'r angen i ddyddio a llofnodi pob dogfennaeth, gan ddilyn egwyddorion cadw cofnodion da y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.</p> <p>Caiff dogfennaeth nyrsio ei chofnodi yng Nghofnodion Gofal Nyrsio Cymru, sy'n system electronig. Adroddir ar gydymffurfiaeth yn wythnosol.</p> <p>Atgoffa'r staff meddygol am bwysigrwydd egwyddorion cadw cofnodion da.</p>	<p>Rheolwr y Ward Metron</p> <p>Meddyg Ymgynghorol Arweiniol</p>	<p>31/10/2023</p> <p>30/11/2023</p>
<p>Roedd rhai nodiadau yn cael eu storio mewn troliau a oedd yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio ac roedd ffeiliau eraill yn cael eu storio ar silffoedd gwaelod agored y troliau ac yn swyddfa rheolwr y ward nad oedd bob amser yn cael ei chloi.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth gyfrinachol mewn perthynas â chleifion ei storio'n ddiogel bob amser.</p>	<p>Caiff pob cofnod meddygol a gwybodaeth gyfrinachol eu storio'n ddiogel ar y ward bob amser. Atgoffwyd y staff am hyn drwy'r sesiwn friffio ar ddiogelwch ar 16/10/2023.</p>	<p>Clerc y Ward</p>	<p>25/07/2023</p>
<p>Dywedodd y staff wrthym eu bod, ar adegau, yn ei chael hi'n anodd bodloni'r gofynion gofal</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro cymysgedd y cleifion ar y ward er</p>	<p>Caiff gofal diogel ei gwblhau deirgwaith y dydd er mwyn adlewyrchu aciwtedd a'r</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>31/10/2023</p>

<p>amrywiol a oedd yn deillio o'r cymysgedd o gleifion.</p>	<p>mwyn sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu'n llawn.</p>	<p>trefniadau staffio. Bydd y pryderon ynghylch y lefelau staffio yn cael eu huwchgyfeirio i'r Metron. Gwneir cais am staff ychwanegol asiantaeth a banc yn ôl yr angen.</p> <p>Bydd y Gweithiwr Cymorth Dementia yn darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i deilwra ar ddementia ar gyfer pob aelod o'r staff nyrso a'r staff meddygol.</p>	<p>Dirprwy Reolwr y Ward</p> <p>Metron</p> <p>Gweithiwr Cymorth Dementia</p>	<p>31/12/2023</p>
<p>Gwnaeth y staff argymell ffyrdd y gellid gwella'r gwasanaeth mewn ymateb i holiadur AGIC.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sylwadau'r staff a chymryd camau i ymdrin â'r materion a amlygwyd.</p>	<p>Adolygu ac ymdrin â sylwadau'r staff, gan sicrhau y caiff adborth ei roi i'r staff.</p> <p>Trafod adborth AGIC ymhellach yn ystod cyfarfodydd y ward.</p> <p>Bydd sesiynau llesiant y staff yn cael eu trefnu gyda chymorth gan y tîm Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Metron</p>	<p>30/11/2023</p> <p>31/1/2024</p>

<p>Dyweddodd y staff wrthym, oherwydd pwysau gwaith, nad ydynt bob amser yn cael amser gwarchoddedig er mwyn cwblhau'r hyfforddiant.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael amser gwarchoddedig, a hynny y tu hwnt i ardal y ward glinigol, er mwyn cwblhau hyfforddiant.</p>	<p>Rhoi amser gwarchoddedig i'r staff a naill ai amser i ffwrdd yn lle oriau neu daliad am fod yn bresennol mewn sesiynau hyfforddiant y tu hwnt i'w horiau gwaith arferol.</p>	<p>Rheolwr y Ward Dirprwy Rheolwr y Ward Metron</p>	<p>30/11/23</p>
<p>Roedd y wybodaeth am hyfforddiant y staff a ddarparwyd yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn amrywiol.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau pob agwedd ar hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n fwy penodol i'r gwasanaeth.</p>	<p>Pob aelod o'r staff i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol yn uwch na 85%.</p> <p>Caiff hyn ei fonitro drwy gynnal Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad, lle y caiff cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ei drafod a chymorth ei ddarparu yn ôl yr angen. At hynny, adroddir ar y gydymffurfiaeth yn adroddiad atebolrwydd misol y Metron a gaiff ei gyflwyno i'r Dirprwy Bennaeth Nyrsio/Pennaeth Nyrsio.</p> <p>Cadw cronfa ddata ardal leol er mwyn cofnodi hyfforddiant staff ychwanegol.</p>	<p>Rheolwr Dirprwy Rheolwr y Ward Ysgrifennydd Ardal</p>	<p>30/11/2023 30/11/2023</p>

<p>Roedd rhai aelodau o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn feirniadol o aelodau o'r tîm rheoli.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd archwilio'r ffyrdd y gellir gwella a chynnal cydberthnasau da a phroffesiynol rhwng y rheolwyr a'r staff.</p>	<p>Bydd sesiynau llesiant y staff yn cael eu trefnu gyda chymorth gan y tîm Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu.</p> <p>Metron i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y ward.</p> <p>Metron i barhau i fod yn weladwy ar y wardiau/ymweld â'r ward yn ddyddiol.</p> <p>Uwch-reolwyr, gan gynnwys y Dirprwy Bennaeth Nyrsio a'r Pennaeth Nyrsio i ymweld â'r ward yn wythnosol er mwyn sicrhau eu bod yn weladwy.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Dirprwy Reolwr y Ward</p> <p>Metron</p> <p>Dirprwy Bennaeth Nyrsio/Pennaeth Nyrsio</p>	<p>30/11/2023</p> <p>31/01/2024</p>
<p>Nid oedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan reoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi ymgymryd â gweithgareddau e-ddysgu, ond dywedodd eraill wrthym nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ar y mater.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u bod yn cael hyfforddiant priodol ar y mater.</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff wedi cael gwybod beth yw ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r ddyletswydd gonestrwydd.</p> <p>Bydd pob aelod o'r staff yn cael ei gefnogi i ymgymryd â hyfforddiant ar y ddyletswydd gonestrwydd a fydd yn cael ei gynnwys ar gronfa ddata'r safle.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Dirprwy Reolwr y Ward</p>	<p>30/11/23</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Simon Newman

Swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio

Dyddiad: 13/10/2023